

CAIS DIGWYDDIAD – FFURFLEN GYSWLLT
DIGWYDDIADAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI 2020

Rhaid llenwi'r ffurflen hon unwaith yn unig, a rhaid atodi unrhyw ddogfennau y gofynnir amdanynt i ategu'ch ffurflen gais.
Yna, bydd y ffurflen hon yn cael ei defnyddio mewn perthynas â phob ffurflen gais arall a ddaw i law ar gyfer y busnes hwn yn 2020.

Enw'r sawl sy'n archebu:
Enw'r cwmni (gan gynnwys rhif cofrestru'r cwmni, os yw'n berthnasol):
Rhestr o'r holl gynhyrchion/wasanaethau sydd i'w gwerthu/harddangos yn ystod digwyddiadau 2020 (Os ydych yn bwriadu gwerthu neu hyrwyddo cynnyrch/gwasanaeth gwahanol mewn unrhyw ddigwyddiad penodol, nodwch isod)
Prif gynnyrch ar werth:
Cynhyrchion eraill ar werth:
Cyfeiriad:
Cod post:
Rhif ffôn:
Cyfeiriad e-bost:
Gwefan:
Facebook:
Instagram:
A oes angen y wybodaeth yn y Gymraeg? OES <input type="checkbox"/> NAC OES <input type="checkbox"/>

Os nad yw'r person sy'n llenwi'r ffurflen gais yn berchennog y busnes, llenwch yr adran isod.

Enw'r perchennog:
Enw'r cwmni:
Cyfeiriad:
Cod post:
Rhif Cyswllt
Cyfeiriad e-bost:

GWYBODAETH IECHYD A DIOGELWCH PWYSIG

(Rhaid ei llenwi gan bob ymgeisydd)

1) Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (NID Atebolrwydd Cyflogwr): Dyddiad dod i ben Rhif y Polisi Enw Cwmni'r Yswiriwr		
Rhaid cyflwyno copi o'r ddogfen hon gyda'ch cais; hebddo, bydd eich cais yn cael ei oedi a gallai hyn beryglu'ch lle yn y digwyddiad.		
2) Sgôr Hylendid Bwyd (Busnesau bwyd yn unig) (Ticiwch eich sgôr, ni dderbynnir busnesau heb sgôr o 3 neu'n uwch ar gyfer digwyddiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili): Sgôr = 3 <input type="checkbox"/> Sgôr = 4 <input type="checkbox"/> Sgôr = 5 <input type="checkbox"/> Dd/b <input type="checkbox"/> Dyddiad Cyhoeddi: Yr Awdurdod Lleol a gyhoeddodd y dystysgrif:	(NID oes angen cyflwyno copi o'r ddogfen hon gyda'ch cais)	
3) Tystysgrif Diogelwch LPG (Busnesau bwyd yn unig) Dyddiad dod i ben Tystysgrif a gyhoeddwyd gan: Dd/b		
Rhaid cyflwyno copi o'r ddogfen hon gyda'ch cais; hebddo, bydd eich cais yn cael ei oedi a gallai hyn beryglu'ch lle yn y digwyddiad.		

RHESTR WIRIO A DATGANIAD

Rhestr Wirio

Sicrhewch fod y canlynol ynghlwm wrth y ffurflen gais wedi'i llenwi'n llawn:

- Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (Bob busnes)
- Tystysgrif Diogelwch LPG (Busnesau bwyd yn unig)
- Cofnod Diogelwch Bwyd wedi'i Gwblhau (Busnesau bwyd yn unig)
- Ffurflen Asesu Risg Tân ac LPG wedi'i chwblhau (Busnesau bwyd yn unig).
- Delwedd o'r uned/standin (Pob busnes os ydych yn bwriadu dod â'ch un eich hun i'r digwyddiad)

Bydd methu â chyflwyno/cwblhau unrhyw un neu ragor o'r uchod yn golygu na fydd eich ffurflen gais yn cael ei hystyried hyd nes y daw'r holl ddogfennau angenrheidiol i law. Sylwch y bydd hyn yn oedi'r broses archebu, a gallai beryglu'ch lle yn y digwyddiadau.

Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth ar y ffurflen gais hon yn gywir ar adeg ei llofnodi a'i dyddio.

Rwy'n cadarnhau fy mod yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl yswiriannau, sgoriau a thystysgrifau wedi'u dyddio ar adeg gwneud cais i fynd i unrhyw ddigwyddiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Rwy'n cadarnhau, os bydd unrhyw ddogfennau'n dyddio rhwng nawr a dyddiad y digwyddiad(au), y cânt eu hadnewyddu a bydd yr wybodaeth newydd yn cael ei hanfon at Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Rwy'n cadarnhau fy mod yn gyfrifol am hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a yw'r sgôr hylendid bwyd a ddyfarnwyd i mi wedi newid ar unrhyw adeg rhwng nawr a dyddiad(au) y digwyddiad(au).

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn cysylltiad pe bai dyddiad eich yswiriant yn dod i ben cyn dyddiad(au) y digwyddiad(au) a bydd gofyn i chi ddarparu copi newydd. Heb yr wybodaeth hon, ni chaniateir i chi fynychu'r digwyddiad.

Rwy'n cadarnhau fy mod yn cytuno â'r holl wybodaeth uchod a fy mod yn llofnodi'r isod i gadarnhau y byddaf yn cadw at yr holl delerau ac amodau hyn, ynghyd â'r holl wybodaeth a gynhwysir yn yr Amodau Derbyn a Pholisi Rheoli Diogelwch Digwyddiad(au).

Enw'r Ymgeisydd:

Llofnod yr ymgeisydd:

Dyddiad:



Am wybodaeth am sut rydym yn cofnodi a chadw data personol, lawrlwythwch bolisi preifatrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o am y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data sydd ar gael yn www.visitcaerphilly.com/cy neu www.caerffili.gov.uk



Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cofnod Diogelwch Bwyd – Busnesau bwyd yn unig

Enw'r cwmni:

Enw'r perchennog:

Rhif cyswllt

Enw'r Awdurdod Lleol rydych wedi'ch cofrestru ag ef:

Swyddog lechyd yr Amgylchedd – Enw a rhif ffôn:

Disgrifiad o'r busnes / math o fwyd a ddarperir, e.e. caws, hufen iâ, melysion

A yw cynhyrchion yn cael eu gwerthu yn agored neu mewn cynwysyddion wedi'u selio. Os yn gymysg, disgrifiwch y cynhyrchion a sut y byddant wedi'u pecynnu:

A fydd y cynhyrchion yn cael eu hoeri?

BYDDANT NA FYDDANT

Os byddant, disgrifiwch sut:

Cyfleusterau wrth gefn

Cyfleusterau arddangos

Cyfleusterau cludo

A wnewch chi ddarparu samplau i'w blasu?

GWNAF NA WNAF

Disgrifiwch sut y byddwch yn eu cynnig:

A fydd bwyd yn cael ei goginio neu ei gadw'n gynnes ar y safle?

BYDD NA FYDD

Sut y caiff tymheredd y bwyd ei wirio / ei gynnal?

Disgrifiwch eich cyfleusterau golchi dwylo arfaethedig:

(Oni bai eich bod yn llogi uned golchi dwylo cludadwy ar gyfer y digwyddiad, mae'n rhaid i chi ddod â'ch uned golchi dwylo, sebon a deunyddiau sychu dwylo hylan eich hun neu, fel arall, powlen a fflasg thermos)

Faint o staff fydd yn gweithio ar y stondin:

Faint ohonynt sydd â thystysgrif hylendid bwyd lefel 2:



Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Ffurflen Asesu Risg Tân ac LPG – Busnesau bwyd ag LPG yn unig

Enw'r cwmni: _____

Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch tân berthnasol, mae'n RHAID i chi gwblhau Asesiad Risg Tân ac LPG (nwy petrolewm hylifedig) ar gyfer eich stondin neu uned. Mae angen i'r Asesiad Risg nodi'r peryglon tân a'r bobl sydd mewn perygl; mae'n rhaid i chi ymdrechu i ddileu neu leihau'r risgiau hyn a diogelu pobl rhag tân. Bydd methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn yn arwain at fynnu eich bod yn gadael y safle. Bydd rhaid i'r asesiad risg, wedi'i lofnodi a'i gwblhau, hefyd fod ar gael i'w archwilio gan y Gwasanaeth Tân ac Achub / Trefnydd y Digwyddiad / Swyddogion y Cyngor bob amser os gofynnir amdano.

Rhaid eich bod chi'n gallu rhoi ateb CADARNHAOL i'r cwestiynau canlynol.

1. A fydd eich LPG yn cael ei storio'n ddiogel y tu mewn i un o'r canlynol (Ticiwch un):

Stondin Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	<input type="checkbox"/>
Eich stondin eich hun	<input type="checkbox"/>
Ôl-gerbyd/uned arlwyyo	<input type="checkbox"/>

2. A oes gennych arolygiad / tystysgrif diogelwch nwy ar gyfer yr offer a'r gwaith pibellau, ac a yw'r holl gysylltiadau hynny wedi'u gwneud â chaeadau wedi'u "crychu"?

Oes

3. A yw'r offer nwy wedi'i osod ac yn cael ei wasanaethu / ei gynnal a chadw yn rheolaidd gan berson cymwys, gyda'r gweithredwr yn gallu gweithredu'r offer yn ddiogel a bod cynlluniau ar waith i ddelio â phroblemau megis achosion o nwy yn gollwng neu dân?

Ydy

4. A yw'r pibellau sefydlog wedi'u gwneud o gopr neu ddur?

Ydyn

5. A yw'r pibellau hyblyg yn bodloni'r safonau BS priodol ac, lle y bo'n briodol, wedi'u darparu â mesur diogelwch mecanyddol er mwyn lleihau'r difrod?

Ydyn

6. A yw'r pibellau hyblyg yn cael eu gwirio yn rheolaidd am ollyngiadau ac yn cael eu hamnewid os ydynt wedi'u difrodi neu wedi'u treulio?

Ydyn

7. A yw'ch silindrau yn cynnwys falfiau rhyddhau pwysedd a falf gau ar gyfer achosion brys?

Ydyn

8. A yw'r offer coginio wedi'u gosod yn ddiogel ar sylfaen nad yw'n llosgadwy ac sy'n inswleiddio gwres, ac wedi'u hamgylchynu gan giardiau o ddeunydd tebyg ar dair ochr?

Ydy

9. A yw'r giardiau'n darparu rhwystr effeithiol a digonol, o leiaf 600mm, rhwng y ffynhonnell wres ac unrhyw ddeunydd llosgadwy?

Ydyn

10. A ydych wedi sicrhau na fydd modd i unrhyw ddeunydd llosgadwy gael ei chwythu yn erbyn yr offer, neu gwympo ar yr offer?

Ydw

11. A yw'r silindrau LPG yn cael eu cadw mewn man wedi'i awyru yn ystod digwyddiadau, wedi'u clymu'n dynn ar ei sefyll ac allan o gyrraedd y cyhoedd?

Ydyn

12. A yw'r silindrau LPG yn cael eu clymu'n dynn wrth eu cludo?

Ydyn

13. A ydych yn sicrhau mai'r silindrau sy'n cael eu defnyddio yw'r unig rai sy'n cael eu cadw yn eich uned/standin?

Ydw

14. A yw'r silindrau nwy mewn lle hawdd ei gyrraedd i alluogi eu hynysu mewn achos o argyfwng?

Ydyn

15. A yw'r silindrau wedi'u lleoli i ffwrdd o fynedfeydd, allanfeydd brys a manau cylchredeg?

Ydyn

16. A fyddwch yn arddangos arwydd diogelwch yn y standin / yr uned ar sut i gysylltu'r botel LPG, a'i datgysylltu

Byddaf

17. Oes arwydd wedi'i gosod ar y tu allan i'r blwch poteli i rybuddio am bresenoldeb nwy?

Oes

18. A ydych yn sicrhau bod y nwy a gyflenwir yn cael ei ynysu wrth y silindr, yn ogystal ag wrth yr offer, pan nad yw'r offer yn cael eu defnyddio, a bod yr offer yn cynnwys dyfeisiau diogelwch fflam llawn ar bob un o'r llosgwyr nad ydynt yn hawdd eu gweld?

Ydw

19. A ydych yn sicrhau bod silindrau newydd yn cael eu gosod yn yr awyr agored i ffwrdd o unrhyw ffynonellau tanio?

Ydw

20. A oes aelod o staff, sydd wedi'i hyfforddi'n briodol i ddefnyddio LPG yn ddiogel, yn bresennol yn yr uned bob amser?

Oes

21. A yw strwythur, toi, waliau a ffitiadau eich standin / uned yn wrthfflam?

Ydyn **Os ydych yn defnyddio un o stondinau'r Cyngor, ticiwch yma**

22. Lle bo angen, a oes digon o arwyddion cyfeiriadol sy'n dangos y llwybr dianc priodol, ac a ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau presennol?

Oes

23. A yw'r allanfeydd yn cael eu cadw ar gael, heb eu rhwystro ac wedi'u datgloi bob amser pan fo'r uned/standin yn cael ei defnyddio?

Ydyn

24. Os ydych yn bwriadu masnachu yn ystod oriau tywyllwch, a oes gennych ddigon o oleuadau y tu mewn a'r tu allan i'ch uned/standin?
- Ydw**
25. Pe bai'r goleuadau arferol yn methu, a fyddai'r meddianwyr yn gallu gadael yn ddiogel?
- Byddent**
26. A oes gennych nifer digonol o ddiffoddwyr tân / flancedi tân ar gael mewn mannau amlwg ac sydd ar gael i'w defnyddio yn rhwydd?
- Oes**
27. A yw'r offer ymladd tân wedi cael eu profi yn ystod y 12 mis diwethaf?
- Ydy**
28. A yw'r staff wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r offer ymladd tân sydd wedi'u darparu?
- Ydyn**
29. A yw'ch staff wedi cael gwybod am yr hyn i'w wneud pe bai digwyddiad, sut i ganu'r larwm, gwacáu'r uned/standin a lleoliadau'r allanfeydd?
- Ydyn**
30. A ydych yn ymwybodol nad yw generaduron yn cael eu caniatáu ar y safle?
- Ydw**
31. A ydych wedi nodi'r holl ffynonellau tanio ac wedi sicrhau eu bod yn cael eu cadw i ffwrdd o ddeunyddiau llosgadwy?
- Ydw**
32. A ydych wedi nodi deunyddiau llosgadwy a allai achosi i dân ymledu y tu hwnt i'r man tanio, megis papur/cardbord ac ati, ac wedi lleihau'r perygl y byddant yn rhan o'r digwyddiad?
- Ydw**
33. A oes gennych ddigon o finiau sbwriel, ac a ydych yn sicrhau bod yr holl sbwriel yn cael ei waredu yn y ffordd gywir, allan o gyrraedd y cyhoedd?
- Oes**
34. Ni fydd neb yn cysgu yn yr uned/standin arlwygo?
- Na fydd**

NODWCH: NID YW'R DDOGFEN HON YN EICH EITHRIO O'R POSIBILRWYDD O'CH ERLYN, NEU O FYNNU EICH BOD YN GADAEL Y SAFLE GAN Y TREFNWYR, OS BYDD AROLYGIAD DILYNOL YN AMLYGU SAFONAU ANFODDHAOL.